Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol 2 2024-25

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Peniarth.cymru
RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Darlith 2: Methodoleg Caffael a Datblygu Iaith

h.jones@pcydds.ac.uk

Ydych chi’n cofio?

Pa ddigwyddiadau hanesyddol gafodd ddylanwad negyddol ar y Gymraeg ?

Trafodwch.

Ydych chi’n cofio?

Pa ddigwyddiadau hanesyddol gafodd ddylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg ?

Trafodwch.

Cwestiwn allweddol:

Sut gallwch chi ddod yn athro iaith?

Estyn:



Argymhellion:

A2 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau Cymraeg yn datblygu medrau personol ac addysgu myfyrywyr i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Dylai hyn gynnwys addysgeg caffael a datblygu iaith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog.

Beth ydy caffael iaith?

language acquisition

collocation

Add to word list

LANGUAGE • specialized

the natural process by which people and especially children become able to understand and speak a language, without having lessons or learning rules:

- *Language acquisition starts at a very young age.*
- *This is an ideal text for students with little or no background in child language acquisition.*
- *There are many mechanisms which contribute to language acquisition and development.*

Cambridge Dictionary

Beth ydy “methodoleg”?

GPC Geiriadur Prifysgol Cymru
A Dictionary of the Welsh Language

NODDI CARTREF CYMORTH ▶ ENGLISH

© Hawlfraint Prifysgol Cymru 2023

CYMRAEG DIFFINIADAU SAESNEG ◀ GAIR BLAENOROL YN ÔL CUDDIO DANGOS ARGRAFFIAD CYNTAF GAIR NESAF ▶

Methodoleg

methodoleg (cyhoeddwyd 1988)

1 - 1 o 1

methodoleg

methodoleg

[cfdds. o’r S. *methodol(ogy)+-eg*[1]]

eb.

Y corff o fethodau ac egwyddorion a ffurfir ac a arferir mewn maes astudiaeth arbennig, gwyddor method:

methodology.

Methodoleg Caffael Iaith...

Mae yna fwy a mwy o ymchwil wedi cael ei wneud yn y maes ‘Methodoleg Caffael a datblygu iaith’ lle rydyn ni’n dysgu mwy am SUT mae plant yn dysgu iaith. Byddwn ni’n canolbwyntio ar syniadau ymarferol fydd yn eich helpu chi ar lawr dobarth. Byddwn ni’n defnyddio syniadau gan lawer o arbenigwyr yn y maes.

Caffael Iaith...

"Mae dysgu iaith yn cyfeirio at yr addysgu a dysgu bwriadol sy'n digwydd i ddatblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae ystyried hyn yn greiddiol i gyd-destun ieithyddol ac addysgol Cymru. Mae tua 60% o ddysgwyr pump oed sy'n derbyn eu haddysg amser llawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog yn byw mewn cartrefi sy'n siarad Saesneg fel prif iaith yr aelwyd (Llywodraeth Cymru, 2020c). Mae'r dulliau o drochi dysgwyr yn y Gymraeg, sy'n golygu defnyddio'r Gymraeg fel yr unig gyfrwng addysgu a dysgu, yn nodweddu darpariaeth mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, ynghyd â ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu dysgwyr sy'n hyfedr ac yn hyderus yn eu medrau Cymraeg a Saesneg."

Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 23.

Methodoleg Caffael Iaith...

"To start with, there is no clear consensus about what works best in every language classroom. As we shall see, there is no "one-size-fits-all" panacea method because there are so many variables involved in the process of language learning: the teacher, the setting, the students' own background and aims, the cultural context, to name just a few ...."

(Tud 1, *The Language Teacher Toolkit*)

Felly cofiwch, does dim un dull o addysgu'n well nag un arall wrth addysgu iaith.
Wrth gynllunio, ystyriwch:

- **Amcanion dysgu'r wers**
- **Cyd-destun y dysgu**
- **Arddulliau dysgu'r unigolyn**

Munud i feddwl

Pa fethodolegau caffael iaith ydych chi'n gyfarwydd â nhw?

Meddyliwch am eich gwersi iaith pan oeddech chi yn yr ysgol.

Nodwch eich pwyntiau ar ffurf siart corryn.

Mae pedair sgil iaith. Wrth addysgu’r ffocws iaith yn eich gwersi, efallai eich bod chi eisiau canolbwyntio ar un sgil ar y tro neu mae modd eu cyfuno.



Pa sgiliau sy’n dod gyntaf?

Gwrando → Siarad

Darllen → Ysgrifennu

Pwysigrwydd y sgil o wrando

- Sgil wedi'i hesgeuluso neu wedi'i anghofio ydy gwrando.
- Caiff ei defnyddio fel prawf, nid dull dysgu.
- Sensiteiddio'r dysgwyr i batrymau ffonolegol, sillafol, geiriol, morffolegol a chystrawennol.



Sut ydyn ni’n dysgu iaith?

Yn fiolegol, yn gyntaf, rydyn ni’n clywed a gwrando.

> *“Our brains are wired to pick up language through listening”*
> (Tud 1, *Breaking the Sound Barrier*)

Felly, mae’n bwysig addysgu’r sgil o wrando.

Rhaid cynllunio tasgau gwrando’n fwriadus er mwyn rhoi cyfle i’r dysgwr sylwi ar yr iaith a ddefnyddir ac a ddysgir.

Sgil gwrando a siarad

"Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg yn caffael yr iaith yn llwyddiannus drwy wrando ar ymarferwyr yn cyfathrebu â nhw yn y Gymraeg **yn gyson**. Trwy wneud hynny, maent yn clywed llif yr iaith ac yn dod i ddeall a mewnoli geiriau a phatrymau cystrawennol yn effeithiol. Dros amser, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn magu hyder wrth ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg."

Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 38.

Y Cof

"Mewn llawer o ysgolion lle mae arfer effeithiol, mae ymarferwyr yn cyfoethogi geirfa dysgwyr yn effeithiol drwy ddefnyddio technegau defnyddiol fel cymhorthion cof i ddysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn drafftio storïau gyda'i gilydd ac mae ymarferwyr yn cyflwyno ac yn atgyfnerthu gyfarwydd ac anghyfarwydd i ddysgwyr i'w helpu i gryfhau eu dewisiadau creadigol fel 'chwarddodd yn uchel' a 'crwydro'n ddigyfeiriad'. Mae dysgwyr yn ailadrodd y storïau ar lafar yn rheolaidd. Mae hyn yn ei helpu i gofio'r eirfa newydd wrth iddynt ddatblygu eu siarad ac ysgrifennu at ddibenion gwahanol."
Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 68.

"Research has demonstrated that the most successful construction of a memory takes place when new content is linked to prior knowledge. The probability of remembering something new is increased when teachers invoke connections and relationships that exist between new and old knowledge."
(tud 46: *The Language Teacher Toolkit)*

Cofio….Anghofio

Ar ddarn o bapur, gwnewch graff. Tynnwch linell i ddangos sut rydyn ni'n cofio / colli gwybodaeth newydd. Dechreuwch ar 100%.



Cofio….Anghofio



Figure 8.1 The Ebbinghaus Forgetting Curve



(Smith and G. Conti, 2021, t.114)

Y Cof

- Mae cof tymor byr yn **rhan** o'r Cof Gweithiol - y man lle mae pethau'n cael eu storio dros dro.

- Mae angen gwneud llawer er mwyn symud pethau i'r cof tymor hir (ailadrodd ac ailgylchu iaith er mwyn cofio).

Munud i feddwl

Pam bod dysgu geirfa’n bwysig?

Trafodwch

Pam fod dysgu geirfa’n bwysig?

Wrth ddysgu geirfa, gall y dysgwr:

- gyfathrebu’n well ac yn gyflymach
- ddeall yn well
- gynyddu ei hunan hyder
- gynyddu ei hunan-effeithlonrwydd
- ddysgu’n well

Pwysigrwydd dysgu geirfa

"Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion lle mae’r addysgu yn effeithiol, mae ymarferwyr yn datblygu geirfa dysgwyr yn fedrus. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth ac yn fodd cyson o sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio ac yn cymhwyso iaith lafar ac ysgrifenedig fwyfwy aeddfed ac estynedig **mewn gwersi Cymraeg ac ar draws y cwricwlwm** wrth iddynt symud drwy’r ysgol."

Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 33.

"Mae ymarferwyr yn dilyn cynllun pwrpasol sydd wedi’i strwythuro’n ofalus gan arbenigwyr iaith yn y lleoliad i gyflwyno, datblygu, ymarfer a defnyddio geirfa a therminoleg benodol sy’n gysylltiedig â maes neu bwnc penodol er enghraifft gwyddoniaeth a daearyddiaeth...

...O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn defnyddio geirfa a therminoleg newydd yn llwyddiannus yn eu gwaith."

Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 68.

Pwysigrwydd dysgu geirfa

"Yn yr ysgolion hynny lle mae safonau gwrando a siarad yn gryf, mae dysgwyr yn parhau i wneud cynnydd da o ran datblygu geirfa gyfoethog, eang ac amrywiol drwy gydol cyfnod allweddol 2. Cânt gyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio strwythurau brawddegau a geiriau amrywiol yn fanwl gywir yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm er enghraifft cynnal trafodaethau mewn gwyddoniaeth…

…mae dysgwyr yn gwrando'n ofalus ar sut mae'r ymarferydd yn trafod y testun ac yn defnyddio geirfa briodol wrth drafod ffeithiau penodol a defnyddio patrymau iaith cywir wrth gyflwyno gwybodaeth i'w cyfoedion."

Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 40.

Beth ydy drilio?

Mae drilio yn ffordd effeithiol o ddysgu geirfa, ymadrodd neu dalp o iaith. Mae'n gallu bod yn ffordd effeithiol o gyflwyno a dysgu geirfa newydd neu batrwm iaith newydd. Mae'n ffordd dda o gyflwyno geirfa berthnasol yn y cyd-destun cywir, e.e. i gyd-fynd â chynnwys y wers.

Gellir defnyddio drilio:

- ar ddechrau gwers – wrth gyflwyno geirfa / patrymau newydd
- ar ddiwedd gwers – er mwyn atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd
- yng nghanol gwers – er mwyn codi'r egni / adolygu geirfa / patrymau

Gan mai prif bwrpas y dril ydy cyflwyno geirfa newydd, ni ddylid cyflwyno gormod o batrymau newydd ar yr un pryd.

Ceisiwch gadw'r drilio yn fyr, e.e. tua 5 munud.

Peidiwch â bod ofn drilio yn y sector cyfrwng Cymraeg!

Mae’n bosib iawn y bydd canran uchel o’r dysgwyr yn eich dosbarthiadau yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Felly, i nifer o’r dysgwyr, Cymraeg yw eu hail iaith er eu bod yn rhugl.

Mae lle i ddrilio wrth ddysgu patrymau a geirfa newydd mewn ysgolion Cymraeg.

Trochi

"Daw mwyafrif y dysgwyr sy’n mynychu lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, o gartrefi lle mae ychydig iawn o’r Gymraeg yn cael ei siarad, os o gwbl. Mae llawer o ymarferwyr yn trochi dysgwyr yn y Gymraeg drwy fodelu iaith a’i defnyddio i gyfathrebu’n effeithiol. Dros amser, mae ymarferwyr yn ehangu ac yn ymateb ystod geirfa a phatrymau cystrawennol dysgwyr yn llwyddiannus, ac yn darparu amgylchedd dysgu sy’n gyfoeth o eirfa a llythrennedd Cymraeg."

Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 63.

‘Direct teaching of essential talk skills and understanding is straightforward and should be undertaken in school classrooms.’

(Lyn Dawes a Claire Sama, *TALK BOX: 1*)

Beth ddylwn ni ddrilio?

Gellir defnyddio drilio wrth addysgu:

- llythrennau a synau, deuseiniaid, synau anghyfarwydd.
- geirfa;
- patrymau iaith;
- ymadroddion;
- ynganu: goslef a phwyslais
- ymadroddion bob dydd;
- idiomau, brawddegau, cymalau;
- unrhyw batrwm iaith newydd.

Sut mae drilio?

Mae nifer fawr o ffyrdd o ddrilio geirfa a phatrymau iaith newydd. Dyma rai esiamplau:

- ailadrodd fel grŵp gan ddefnyddio cardiau fflach fel sbardun wrth gyflwyno geirfa newydd;
- ailadrodd ar ôl y tiwtor iaith gan ddefnyddio lleisiau amrywiol, e.e. llais uchel, llais tawel, llais cryf, llais gwichlyd, a.y.y.b.
- rapio (a chlapio);
- canu (a chlapio)
- pasio'r cwestiwn – un yn holi, nesaf yn ateb cyn holi'r un cwestiwn e.e. holiadur, bylchau gwybodaeth, cyfnewid neu gasglu cardiau.
- pasio'r bêl – pasio'r bêl a'r person sy'n ei dal sy'n dweud y gair / patrwm iaith;
- cadwyn – "Es i i'r siop a phrynais .." – gyda'r rhestr o eirfa'n cynyddu wrth symud o un person i'r nesaf.
- defnyddio lluniau/ cardiau fflach.
- defnyddio ystumiau neu symudiadau.

Munud i feddwl

Beth ydy manteision defnyddio drilio?

Manteision defnyddio drilio?

Athro/ Athrawes

- sicrhau cywirdeb
- sicrhau rhuglder
- awyrgylch ddiogel sy'n cynnwys POB dysgwr
- yn rhoi cyfle i ddysgwyr glywed gwallau, codi ymwybyddiaeth o wallau a chywiro yn y fan a'r lle
- adborth di-ymdroi gan y tiwtor neu ddysgwyr eraill
- yn bodloni dysgwyr clywedol
- rhoi cyfle i asesu'n ffurfiannol
- mae'n arf sy'n wahanol i fathau eraill o gyflwyno (newid tempo gwers).

Dysgwr

- rhoi cyfle i ymarfer mewn 'amgylchedd ddiogel'
- newid cyflymder gwers
- modd i gynnwys POB dysgwr
- yn rhoi cyfle i ddysgwyr glywed gwallau, codi ymwybyddiaeth o wallau
- codi hunanhyder dysgwyr
- yn bodloni dysgwyr clywedol
- modd i asesu'r dysgwyr yn ffurfiannol.

Beth am ddrilio adeg cofrestru?…

Ydy ..... yma heddiw?

Ydy!

Nac ydy!

Bocs cofrestru:

- Dyddiau’r wythnos
- Misoedd
- Pen-blwyddi
- Tywydd
- Caneuon
- Lliwiau
- Bwydydd
- Amser

Drilio dyddiol…

Llythrennau / seiniau

Geirfa allweddol/ pynciol

Patrymau brawddegau

Cwestiwn ac ateb

Trefn digwyddiadau

Ffeithiau/ Gwybodaeth

Canu

"Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus, mae ymarferwyr yn ehangu geirfa dysgwyr ac yn dwysau eu dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion drwy weithgareddau 'driliau iaith' fel rhan o gynllun gloywi iaith. Mae dysgwyr yn mwynhau adrodd elfennau ieithyddol a gramadegol syml, er enghraifft drwy rap neu gân gyfarwydd."

(Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud.67)

"Research has found, for example, that setting language to memory with a tune helps with its subsequent retrieval memory. ....

Added to this are the motivational factors associated with music and singing, along with the fact that ..... retention of vocabulary is aided by having memorable associations with the words, it is not surprising that most teachers incorporate song in their teaching."

(*The Language Teacher Toolkit,* tud.271)

Drilio – dysgu berfau Cymraeg

Sefwch ar eich traed
Dywedwch y gair gyda’ch gilydd ar ôl yr athro
Copïwch y symudiadau

nofio
ysgrifennu
darllen
gwrando
cysgu
bwyta
meddwl
yfed
dawnsio
rhedeg

Pwyntiau i’w cofio…

"...mor bwysig bod athrawon yn hybu ac efo angerdd tuag at yr iaith.”

“Mae dylanwad staff yn elfennol ar gyfer agwedd a hyder y dysgwyr. Mae hynny yn cychwyn o oed ifanc iawn- yn y cylch hefyd. Mae dylanwad staff yn elfennol ac mae hynny’n cael effaith tymor hir ar y dysgwyr. Maen nhw’n cofio yr athro yna a gafodd ddylanwad arnyn nhw yn ystod eu taith drochi.”

Podlediad am Blant, ‘Sut mae mae plant yn caffael iaith?’: Owain Gethin Davies, Alaw Humphreys, yr Athro Enlli Thomas, Esyllt Hywel Evans a Dr Nia Young.

Munud i feddwl (eto)

Pa fethodolegau caffael iaith ydych chi'n gyfarwydd â nhw erbyn hyn? Ychwanegwch at eich siart corryn.

Cyngor doeth

- ✓Agwedd yr athro/athrawes
- ✓Ail-gylchu ac adeiladu
- ✓Peidiwch â gwneud gormod –fel y gall y plant **lwyddo** (osgoi gorlwytho gwybyddol)
- ✓Gwallau - ac atgyfnerthu positif
- ✓Treiglo neu beidio?! – os yn rhy anodd – newidiwch y patrwm – **nid yr iaith!**
- ✓Drilio grymus – lluniau, propiau, symudiadau, caneuon a bwrlwm
- ✓Modelu'r iaith – rhaid bod y plant yn clywed y patrwm sawl gwaith.
- ✓Strwythur – meddyliwch am y sgiliau goddefol a gweithredol – pa sgiliau ydych chi'n datblygu, ym mha drefn? (Trefn y wers i'w galluogi i ddefnyddio iaith (Bloom / TTT / PPP)
- ✓Sgaffaldio – matiau iaith, enghreifftiau, sgyrsiau, dechreuwyr brawddegau
- ✓Defnyddiwch gemau iaith yn ystyrlon – beth yw'r pwrpas?

Rhai adnoddau defnyddiol



















Llyfryddiaeth:

- Estyn, (2023) *Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon* ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cefnogir-gymraeg-yn-addysg-gychwynnol-athrawon-sut-mae-sefydliadau-addysg
- Llywodraeth Cymru, (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* ar gael ar: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf
- Llywodraeth Cymru, (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf
- Llywodraeth Cymru, (2019) *What Really Matters*, ar gael ar: https://educationwales.blog.gov.wales/2019/01/18/what-really-does-matter/
- Siencyn, S.W (2008) *Y Plentyn Bach* Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg y Drindod
- Smith and G Conti (2016) *The Language Teacher Toolkit* Great Britain: Amazon
- Smith and G Conti (2021) *Memory What very Language Teacher Should Know* Great Britain: Amazon
- Smith, S (2018) *Becoming an Outstanding Language Teacher* Routledge: London and New York
- Stahl, R J 1994, 'Using "Think-Time" and "Wait-Time" Skillfully in the Classroom. ERIC Digest.', http://files.eric.ed.gov/fulltext/ED370885.pdf
- Podlediad am Blant, 'Sut mae mae plant yn caffael iaith?': Owain Gethin Davies, Alaw Humphreys, yr Athro Enlli Thomas, Esyllt Hywel Evans a Dr Nia Young.https://ypod.cymru/podlediadau/amblant?id=amblant&CatID=6&Cat=Sioeau Ffeithiol

DIOLCH
YN
FAWR